

Mae Home-Start wedi ymrwymo i arferion recriwtio mwy diogel fel rhan bwysig o ddiogelu ac amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed

MANYLEB SWYDD

Teitl:	Gweinyddwr Home-Start
Cyflogwr:	Home-Start Cymru
Lleoliad:	Bydd y rôl yn un hybrid/gweithio o gartref
Cyflog:	Band 1 – Cyflog cychwynnol £19,171 FTE
Oriau:	16-22 awr yr wythnos
Contract:	Cyfnod penodol tan 31 Mawrth 2024
Yn atebol i:	Rheolwr Gweithrediadau
Yn gyfrifol am:	Mewnbynnu data a monitro systemau

Home-Start Cymru

Mae angen cartrefi hapus, iach ar blant er mwyn ffynnu. Mae bod yn rhiant i blant ifanc yn heriol ar yr adegau gorau. Mae teuluoedd yn wynebu mwy o bwysau nag erioed, gyda llawer o rieni yn gweld y gofynion ymarferol ac emosiynol yn llethol. Dyna pryd y gall Home-Start Cymru helpu. Mae gwirfoddolwr a ddewiswyd yn ofalus yn ymweld yn rheolaidd i gynnig cymorth emosiynol ac ymarferol.

Mae Home-Start Cymru yn gweithio gyda theuluoedd â phlant ifanc drwy fodel cymorth sy'n cael ei arwain gan wirfoddolwyr ac sy'n ymweld â'r cartref. Rydym yn cyfuno cryfderau ein rhwydwaith o wirfoddolwyr cymunedol ledled Cymru gyda'n harbenigedd proffesiynol yn y blynyddoedd cynnar. Rydym yno ar gyfer rhieni pan fyddant ein hangen fwyaf, oherwydd ni all plentyndod aros.

Daw ein gwirfoddolwyr o'r cymunedau y maent yn eu cefnogi, ac mae'r gwaith yr ydym nid yn unig yn helpu rhieni a phlant, ond yn gwneud gwahaniaeth hanfodol i gryfhau cymunedau.

Mae Home-Start wedi ymrwymo i arferion recriwtio mwy diogel fel rhan bwysig o ddiogelu ac amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed

DISGRIFIAD SWYDD

Diben y Swydd

Bydd y Gweinyddwr yn gyfrifol am sicrhau bod y systemau mewnbynnu data ar draws Home-Start Cymru yn cael eu cofnodi a'u cynnal yn gywir.

Crynodeb Swydd:

I sicrhau:

- Bod data prosiect HSC yn cael ei gasglu'n gywir a'i ddiweddarau ar y systemau perthnasol gan gynnwys y system CRM
- Gweithio'n agos gydag RhB i sicrhau bod yr holl ddata yn cael ei ddal

Cyfrifoldebau Allweddol

System CRM

- Mae'r holl wybodaeth ddata yn cael ei chynnal a'i mewnbynnu'n gywir i'r Log Elusennau (CRM).
- Mae hyn yn cynnwys cyfeiriadau, gwybodaeth i deuluoedd a gwirfoddolwyr.

Dyletswyddau Ychwanegol

- Cynorthwyo RhB gydag adroddiadau tîm e.e. Goruchwyliaeth, adolygiadau teulu
- Darparu safon uchel o gymorth gweinyddol data
- Cadw at holl bolisiau, gweithdrefnau, canllawiau, safonau Home-Start Cymru
- Gweithio'n hyblyg a chyflawni dyletswyddau rhesymol eraill yn unol â chais y rheolwyr
- Gwaith mewnbynnu data ar y system CRM ac Excel
- Cefnogi aelodau eraill o'r tîm gyda thasgau a phrosiectau ad-hoc fel y'u neilltuwyd

Mae'n bosibl y bydd gofyn i ddeiliad y swydd gyflawni unrhyw ddyletswyddau eraill sy'n dod o fewn natur y swydd a'r cyfrifoldebau a nodir uchod.

Mae Home-Start wedi ymrwymo i arferion recriwtio mwy diogel fel rhan bwysig o ddiogelu ac amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed

MANYLEB PERSON

	Hanfodol	Dymunol
Addysg a Chymwysterau		
TGAU neu gyfwerth	✓	
Profiad		
Y gallu i weithio fel aelod o dîm;	✓	
Sgiliau gweinyddol cryf;	✓	
Y gallu i ysbrydoli ymddiriedaeth	✓	
Yn ymwybodol o faterion cyfle cyfartal ac yn sensitif iddynt	✓	
Angerdd dros weithio yn y sector gwirfoddol		✓
Sgiliau a Phrïodoledau Hanfodol		
Empathig, tawel a di-wrthdrawiadol	✓	
Egni, brwdfrydedd, hyblygrwydd, ymrwymiad, uniondeb, cymhelliant	✓	
Ymrwymiad i weithio mewn ffordd anfeiriadol a gwrth-wahaniaethol	✓	
Ymrwymiad i weledigaeth, cenhadaeth a phwrpas Home-Start Cymru	✓	
Ymrwymiad i ddatblygiad personol a gyrfa	✓	
Gyrrwr car gyda thrwydded gyfredol, yswiriant modur defnydd busnes, a defnydd o gerbyd sy'n addas ar gyfer y ffordd fawr		✓
Sgiliau a Gwybodaeth		
Lefel uchel o sgiliau gweinyddol	✓	
Gwybodaeth o systemau Microsoft	✓	
Arferion gwaith sefydliadol da	✓	
Dealltwriaeth o gronfeydd data/systemau CRM	✓	
Sgiliau cyfathrebu dwyieithog llafar ac ysgrifenedig da (Cymraeg/Saesneg) (hanfodol/dymunol yn dibynnu ar leoliad)		✓
Dealltwriaeth o reoli technoleg gwybodaeth yn y gweithle	✓	